Cyngor Cymuned Mechell
Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd nos Lun Medi 8ed yn Ysgol Llanfechell am 7 o'r gloch.

Yn bresennol
Elin Wynne (Is-gadeirydd), Tony Jones, Menna Owen, Adrian Parry, Jac Jones, Carli Evans-Thau (Clerc)

Yn ymddiheuro
Mary Hughes (Cadeirydd), Elaine Rowlands, Dawn Griffith-Jones, Richard Hughes, Helen Mai Beck (Clerc)

Cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is-gadeirydd Elin Wynne yn absenoldeb y Cadeirydd ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.

1. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Fe dderbynwyd y cofnodion yn gywir. Cynigwyd gan M Owen, eiliwyd gan J Jones.

2. Materion yn codi o'r cofnodion

2.1 Torri Llwybrau - fe ofynnodd T Jones os oedd modd cael enw a manylion cyswllt yr unigolyn oedd wedi bod yn torri llwybrau yn ddiweddar gan fod llwybr y mynydd angen ei wneud. Deallwyd bod D Griffith-Jones wedi diolch i'r unigolyn am ei gwaith ond bod angen gwirio a'r Clerc os oedd nodyn swyddogol wedi ei anfon. Deallwyd bod M Hughes wedi trefnu gyda Carwyn yn barod ei fod yn torri'r llwybr mewn golwg.
(*gwirio os oes nodyn swyddogol o ddiolch wedi ei anfon).

2.2 Scottish Power - nodwyd bod dau eitem rhif 5 yn y cofnodion. Mae materion Scottish Power wedi eu datrys erbyn hyn ac mae'r Cyngor Sir wedi derbyn cyfrifoldeb am y costau rhedeg felly ni fydd mwy o filiau i'w talu gan y Cyngor Cymuned.

2.3 Cloc – dim diweddariad.

2.4 Goleuadau Stryd - mae'r goleuadau wedi eu huwchraddio erbyn hyn. Cytunwyd bod y goleuadau mor effeithiol ag o'r blaen, ac nid oedd unrhyw un o'r aelodau yn ymwybodol o unrhyw broblemau.

2.5 Priffyrdd – nid oedd ymateb hyd yma, cytuno trafod eto pan ddaw gwybodaeth i law.

3. Priffyrdd

Nid oedd unrhyw faterion eraill o bwys i'w drafod.

4. Gohebiaeth

4.1 Nodwyd bod nifer o e-byst eisoes wedi eu hanfon i'r aelodau. Nid oedd sylwadau ar eu cynnwys.

4.2 Digwyddiad Ynni Cymunedol 18/9/2014 - Cafwyd crynodeb gan J Jones am brosiect tyrbin gwynt cymunedol, a'r pwysigrwydd o fynychu'r digwyddiad ymgynghorol hwn os yn bosib.

4.3 Strategaeth Dai Lleol - mae angen anfon unrhyw sylwadau at y Clerc erbyn 26/9/2014.

4.4 Gwefan y Cyngor - cadarnhawyd bod yr enw llanfechellcc wedi ei brynu. Fe gytunwyd y dylai'r Clerc gymryd cyfrifoldeb am weinyddu'r wefan. Nodwyd na fydd gwybodaeth yn ymwneud a'r Cyngor yn cael ei ddiweddaru ar y wefan gymunedol yn hytrach bydd dolen i wefan y Cyngor.
(*EW/HMB i weithio ar y wefan)

4.5. Heddlu - cais am wybodaeth gyswllt ar gyfer aelodau. Nodwyd bod y Clerc wedi ymateb i'r e-bost. Gofynnwyd a oedd modd cael manylion cyswllt ar gyfer y tîm plismona cymunedol ar gyfer ardal Mechell. Gofynnwyd i gynrychiolwyr fynychu'r cyfarfod nesaf i gyflwyno eu hunain.
(*cysylltu â'r heddlu am fanylion cyswllt a'u gwahodd i'r cyfarfod).

4.6 Un Llais Cymru - Rhestr o gyrsiau hyfforddiant yr Hydref er gwybodaeth.

4.7 Heddlu - gwybodaeth am grant posib. Mae'r wybodaeth angenrheidiol o fewn yr e-bost. Nodwyd y dyddiad cau Hydref 10fed 2014.

4.8 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd - cylchlythyr diweddaraf er gwybodaeth. Nodwyd bod hwn wedi ei e-bostio eisoes.

4.9 Cynllunio – gwybodaeth am gyfarwyddyd newydd yn ymwneud a gorsafoedd niwclear.

4.10 Un Llais Cymru – gwybodaeth am y cyfarfod blynyddol 4/10/14.

4.11 Fforwm Cyswllt - nodwyd nad oedd cynrychiolwyr wedi mynychu'r cyfarfod diwethaf.

4.12 Horizon - gwybodaeth am gyfarfod agored yng Nghemaes 15/9/2014 rhwng 1 a 7 o'r gloch.

4.13 Swyddfa Archwilio Cymru - deallwyd bod £30 i'w dalu i bob Cyngor Cymuned.
(*y clerc i anfon y ffurflenni priodol yn ôl i hawlio'r arian)

5. Cyllid

5.1 Taliadau
Carwyn Jones – Torri Gwair (hanner blwyddyn) £520

5.2 Derbyniadau
Cyngor Sir Ynys Môn (ail daliad y briseb) £2572

5.3 Cais am Gymorth
Derbyniwyd cais am arian gan Y Rhwyd. Cytuno y dylid ei drafod ym Mis Tachwedd gydag unrhyw geisiadau eraill.

6. Cynllunio

6.1 Penderfyniadau
- Llwyn Ewryd - wedi cael caniatâd.

6.2 Ceisiadau
- Hafodol Ganol – dim sylw.
- Llandygfael Hir (ar ddisg) – dim sylw mewn egwyddor.
- Waen Farm - cadarnhau gyda CSYM os yw'r datblygiad o fewn canllawiau a pholisïau'r Cyngor. Os ydi, yna dim gwrthwynebiad ond pryder am ddatblygiadau o'r fath mewn cymunedau gwledig.
- Cafnan – dim sylw.
- Bronydd – dim sylw.

7. Unrhyw Fater Arall

7.1 Cafwyd cŵyn nad oedd bin ysbwrial y fynwent yn cael ei wagio yn rheolaidd. Cytuno gofyn i CSYM anfon bin gwyrdd i'w ddefnyddio ar gyfer blodau yn ogystal â'r bin du sydd yno ar hyn o bryd.

7.2 Fe ofynnwyd a oedd ymateb ynglŷn â'r garafán ym Mynydd. Deallwyd bod un garafán rŵan yn bedwar. Gofynnwyd i'r Clerc wirio os oedd ymateb i'r llythyr a gafodd ei anfon.
(*Clerc gwirio'r sefyllfa)

7.3 Coed Tân - Deallwyd bod nifer wedi bod yn siomedig gyda faint o goed oedd ar gael y tro yma, ond roedd hefyd mwy o bobl yno yn nol coed felly roedd llai i'w rhannu. Fe gytunodd J Jones gysylltu â Horizon i weld os oedd mwy ar gael yn y dyfodol agos.

8. Dyddiad y Cyfarfod nesaf

Cyfarfod nesaf NOS LUN 13eg o Hydref 2014 7 o'r gloch yn Ysgol Carreglefn.
Fe ddiolchwyd i Mrs E Wynne am gadeirio ac fe fu'r cyfarfod orffen am 8 o'r gloch.

Mechell Community Council
Minutes of the meeting held on Monday 8th September in Llanfechell School 7pm.

Present
Elin Wynne (Vice-Chair), Tony Jones, Menna Owen, Adrian Parry, Jac Jones, Carli Evans-Thau (Clerk)

Apologies
Mary Hughes (Chair), Elaine Rowlands, Dawn Griffith-Jones, Richard Hughes, Helen Mai Beck (Clerk)

In the absence of the Chair person, the meeting was chaired by the Vice-Chair Elin Wynne who welcomed everyone that was present.

1. Minutes of the last meeting

The minutes were accepted as a true record. M Owen proposed and J Jones seconded.

2. Matters arising

2.1 Cutting of footpaths – T Jones asked if there was a possibility to obtain contact details of the individual who has been cutting the footpaths recently as there's a footpath in Mynydd that needs to be cut. It was understood that D Griffith-Jones had thanked the individual for their work however, clarification from the Clerk was needed to see if an official note had been sent. It was understood that M Hughes had already arranged with Carwyn that the footpath in question will be cut.
(*clarify if an official note of thanks has been sent).

2.2 Scottish Power – it was noted that there were two items numbered 5 in the minutes. Scottish Power matters have now been resolved and the County Council have accepted responsibility for the running costs, therefore there should be no future bills for the Community Council.

2.3 Clock – no update

2.4 Street Lighting – the lamps have been upgraded. It was agreed that the lights are just as effective as the previous ones and the members were not aware of any problems that had arisen.

2.5 Highways – still no response as of yet, it was agreed to discuss again when further information is at hand.

3. Highways

There were no other pressing matters to be discussed.

4. Correspondence

4.1 It was noted that several emails received had been forwarded to the members. There were no comments on the contents.

4.2 Community Energy Event 18/9/2014 – J Jones gave a summary on the wind turbine community project and the importance of attending this consultation event if possible

4.3 Local Housing Strategy – any comments to be sent to the Clerk by 26/9/2014.

4.4 The Council's website – it was confirmed that the name llanfechellcc had been bought. It was agreed that the Clerk should take responsibility for administering the website. It was noted that information to do with the Council will not be updated on the community website but a link will be available to the Council website.
(*EW/HMB to work on the website)

4.5. Police – request for information about the members. It was noted that the Clerk had responded to the email. It was asked if there was a possibility of obtaining contact details for the community policing team who represent the Mechell ward. It was requested that a representative should attend the next meeting to introduce themselves.
(*contact the Police for contact details and extend an invitation to the meeting).

4.6 One Voice Wales – For information, a list of October courses on offer.

4.7 Police – information on a possible grant. The necessary information is in the email. The closing date is October 10th 2014.

4.8 Joint Local Development Plan – recent newsletter for information. It was noted that this has been emailed already.

4.9 Planning – information on new guidelines to do with nuclear sites.

4.10 One Voice Wales – information regarding the annual meeting 4/10/14.

4.11 Fforwm Cyswllt - nodwyd nad oedd cynrychiolwyr wedi mynychu'r cyfarfod diwethaf.

4.12 Horizon – information regarding an open meeting in Cemaes on 15/9/2014 between 1pm and 7pm.

4.13 Wales Audit Office – it was understood that £30 was to be paid to every Community Council. (*the clerk to complete and send the necessary forms to claim the money)

5. Finance

5.1 Payments

Carwyn Jones – Grass Cutting (half year)	£520

5.2 Receipts

Isle of Anglesey County Council (precept - second payment)	£2572

5.3 Donations

A request for donation was received from Y Rhwyd. It was agreed to discuss in November along with any other requests.

6. Planning

6.1 Decisions

- Llwyn Ewryd – has been approved.

6.2 Applications

- Hafodol Ganol – no comments.
- Llandygfael Hir (on a disk) – no comments in principle.
- Waen Farm – confirm with the IOCC that the development is within the Council's policies and guidelines. If so, there are no objections, only concerns about similar developments in rural communities.
- Cafnan – no comments.
- Bronydd – no comments.

7. Any other matters

7.1 A complaint was received that the rubbish bin in the cemetery was not emptied regularly. It was agreed to ask the IOCC for a green bin to be sent for the flowers in addition to the black bin that is already there.

7.2 It was asked if there was a response regarding the caravan in Mynydd. It is understood that one caravan is now four. The Clerk will be asked to clarify if there was a response to the letter that was sent.
(*The Clerk to clarify the situation)

7.3 Fire Wood – Several people were disappointed at how much wood was available this time around, however, there were more people collecting wood which meant there were less to distribute. J Jones agreed to contact Horizon to see if there will be more available in the near future.

8. Date of next meeting

Next meeting MONDAY 13th October 2014 at 7pm in Carreglefn School.

The Vice-Chair E Wynne was thanked for chairing the meeting with the meeting coming to a close for 8pm.

Arwyddwyd/Signed

Cadeirydd/Chairperson …….

Dyddiad/Date……